CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Medi 2022**
Teitl:	**Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd**
Diben yr adroddiad:	**Adolygu'r ymddiriedolaeth a phenderfynu ar y camau nesaf**
Er:	**Penderfyniad**

1. CEFNDIR

1.1 Ym 1952, cafodd darn o dir yn Sgwâr Uplands, Ceinewydd ei drawsgludo a'i roi mewn ymddiriedolaeth gydag ymddiriedolwyr Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd i godi llyfrgell ac ystafell ddarllen ar y safle a'i defnyddio at y diben hwnnw er budd trigolion Ceinewydd.

1.2 Ym 1956 trosglwyddwyd yr eiddo gan ymddiriedolwyr Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd i Gyngor Sir Aberteifi.

1.3 Ym 1958 cyflawnodd Cyngor Sir Aberteifi Weithred Ymddiriedolaeth, gan roi'r eiddo, enillion unrhyw werthiant ac unrhyw renti ac elw, i mewn i ymddiriedolaeth ("yr ymddiriedolaeth") ar yr un telerau ac at yr un dibenion ag a nodwyd yn y Weithred Drawsgludo ac Ymddiriedolaeth wreiddiol ym 1952.

1.4 Ym 1959 gwerthodd Cyngor Sir Aberteifi, fel ymddiriedolwr, ddarn o dir i'r de-ddwyrain o'r safle (gyda chaniatâd y Weinyddiaeth Addysg) am £70. Mae hwn bellach yn rhan o safle Costcutters.

1.5 Mae gwasanaethau llyfrgell wedi cael eu darparu o'r safle er budd trigolion Ceinewydd ers blynyddoedd lawer, ond yn 2014 ymrwymodd Cyngor Tref Ceinewydd i gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Cyngor er mwyn iddynt reoli'r ddarpariaeth llyfrgell gan ddefnyddio gwirfoddolwyr. Adnewyddwyd y cytundeb hwn yn 2016, ond daeth y trefniant i ben ar 1 Tachwedd 2021 a gwagiwyd yr eiddo.

2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

2.1 Ar hyn o bryd mae'r ymddiriedolaeth yn dal y darn o dir ac adeiladau a ddangosir gydag ymyl coch ar Atodiad 1 sydd ynghlwm, a chedwir £1,015.84c ar gyfrif, sef yr elw a gafwyd drwy werthu'r tir ym 1959 ynghyd â llog. Fel y nodwyd yn Adran 1 uchod, mae'r asedau hyn yn cael eu cadw gan y Cyngor fel ymddiriedolwr er mwyn defnyddio'r safle fel llyfrgell ac ystafell ddarllen er budd trigolion pentref Ceinewydd.

2.2 Nid oes unrhyw ardrethi yn daladwy ar yr adeilad gwag gan fod y gwerth ardrethol o dan £2,600. Codir tâl am drydan yn yr eiddo, ac mae'r Cyngor yn gorfforaethol yn talu amdano fel rhan o'i gyfrif grŵp, fodd bynnag mae Cynnal a

Chadw yn bwriadu ymweld â'r eiddo yn fuan ar gyfer archwiliad, a'r gobaith wedyn yw y bydd yn rhoi cyfarwyddyd i ddatgysylltu'r trydan er mwyn arbed costau. Yna, bydd y gost ar gyfer trydan rhwng 1 Tachwedd 2021 hyd nes y bydd yr eiddo wedi'i ddatgysylltu yn cael ei adennill o gyfrif yr ymddiriedolaeth gan mai'r ymddiriedolaeth sy'n atebol am hyn ac nid yw'n atebolrwydd corfforaethol.

2.3 Mae Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, bellach wedi ei lleoli yn Neuadd Goffa Ceinewydd. Mae Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd wedi cadarnhau nad oes ganddyn nhw gynlluniau i symud yn ôl i safle'r Ymddiriedolaeth gan nad oes mynediad i bobl anabl, dim cyflenwad dŵr, dim cyfleusterau toiledau ac mae problemau gyda chyflwr y llawr. Maen nhw hefyd wedi cadarnhau bod Cyngor Tref Ceinewydd yn cyfrannu £360 tuag at eu costau trydan yn y Neuadd a bod Gwasanaethau Llyfrgell Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau rhyngrwyd, offer TG a'r holl lyfrau.

2.4 Gan fod safle'r ymddiriedolaeth bellach yn wag ac mae swyddogion wedi cael cadarnhad gan y Gwasanaeth Llyfrgell a Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd nad oes cynlluniau i ddefnyddio'r safle fel llyfrgell neu ystafell ddarllen yn y dyfodol, mae angen ystyried sefyllfa'r ymddiriedolaeth a'i dyfodol gan nad yw safle'r ymddiriedolaeth yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ymddiriedolaeth ar hyn o bryd na chwaith o fudd i fuddiolwyr yr ymddiriedolaeth. Mewn amgylchiadau o'r fath dylai'r ymddiriedolwr ystyried a yw athrawiaeth cy-près yn berthnasol fel y gellir dargyfeirio'r ymddiriedolaeth at ddiben elusennol arall.

3. CY-PRÈS

3.1 Mae athrawiaeth cy-près yn athrawiaeth sy'n galluogi i roddion elusennol, a fyddai fel arall yn methu, gael eu dargyfeirio at ddiben elusennol cysylltiedig arall. Mae adran 62 o Ddeddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf") yn nodi'r amgylchiadau lle gall rhodd elusennol gael ei newid gan y Comisiwn Elusennau fel y gellir ei gymhwyso cy-près.

3.2 Dyma'r amgylchiadau a nodir o dan adran 62(1) o'r Ddeddf (sydd ar gael yn Saesneg yn unig):

(a) where the original purposes, in whole or in part—

(i) have been as far as may be fulfilled, or

(ii) cannot be carried out, or not according to the directions given and to the spirit of the gift.

(b) where the original purposes provide a use for part only of the property available by virtue of the gift.

(c) where—

(i) the property available by virtue of the gift, and

(ii) other property applicable for similar purposes,

can be more effectively used in conjunction, and to that end can suitably, regard being had to the appropriate considerations, be made applicable to common purposes,

(d) where the original purposes were laid down by reference to—

(i) an area which then was but has since ceased to be a unit for some other purpose, or

(ii) a class of persons or an area which has for any reason since ceased to be suitable, regard being had to the appropriate considerations, or to be practical in administering the gift, or

(e) where the original purposes, in whole or in part, have, since they were laid down—

(i) been adequately provided for by other means,

(ii) ceased, as being useless or harmful to the community or for other reasons, to be in law charitable, or

(iii) ceased in any other way to provide a suitable and effective method of using the property available by virtue of the gift, regard being had to the appropriate considerations.

3.3 Cynigir y gallai adran 62(1)(e)(i) fod yn berthnasol yma gan y darparwyd ar gyfer llyfrgell yn ddigonol yn y Neuadd Goffa gan Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd gyda chefnogaeth Cyngor Tref Ceinewydd a'r Cyngor Sir yn ei gapasiti corfforaethol drwy ei wasanaethau Llyfrgell.

3.4 Os bernir bod achlysur cy-près yn codi mae'n ddyletswydd ar yr ymddiriedolwr o dan adran 61 o'r Ddeddf i sicrhau defnydd effeithiol o eiddo'r ymddiriedolaeth ar gyfer elusen trwy gymryd camau i'w alluogi i gael ei gymhwyso cy-près.

4. DIBENION NEWYDD

4.1 Os yw'r ymddiriedolwr yn cytuno bod achlysur cy-près wedi codi, yna gall wneud cais i'r Comisiwn Elusennau i wneud cynllun newydd i ddarparu dibenion newydd o natur debyg i'r ymddiriedolaeth. Wrth benderfynu ar ddibenion newydd, rhaid i'r Comisiwn ystyried:

- Ysbryd y rhodd wreiddiol;
- Pa mor ddymunol yw darparu dibenion newydd sy'n agos at y gwreiddiol;
- Yr angen i'r dibenion newydd fod yn addas ac yn effeithiol yng ngoleuni'r amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd presennol.

4.2 Rhaid i'r ymddiriedolwr ystyried pa ddibenion tebyg y dylai'r elusen eu cael a pha ddefnydd y gellir ei wneud wedyn o asedau'r elusen (y tir a'r arian a gedwir) yn sgil y tair ystyriaeth uchod. Er enghraifft, cafodd yr ymddiriedolwr achlysur cy-près tebyg yn hen Ysgol Uwchradd Tregaron. Yn dilyn ymgynghoriad hir gyda'r gymuned, gwerthwyd tir yr ymddiriedolaeth o dan gynllun cy-près a nodwyd dibenion elusennol newydd ar gyfer yr elw gwerthu fel y gellir ei roi tuag at ddatblygu addysg ar gyfer plant oed cyn-ysgol a phlant oed ysgol yn Nhregaron.

4.3 Rhestrir dibenion elusennol o dan adran 3 o'r Ddeddf, a byddai'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynghori y byddai darparu safle ar gyfer llyfrgell yn dod o dan adran 3(b), sef datblygiad addysg. O'r herwydd, byddai'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn awgrymu bod yr ymddiriedolaeth yn ystyried cynnig diben newydd llawer ehangach i'r Comisiwn – rhywbeth tebyg i 'datblygu addysg trigolion Ceinewydd'.

5. YMGYNGHORI

5.1 Unwaith y bydd yr ymddiriedolaeth wedi ystyried yr uchod i ddechrau, mae'r Comisiwn yn disgwyl i'r ymddiriedolwr gynnal ymgynghoriad priodol i helpu i lywio ei benderfyniadau terfynol ynghylch a yw unrhyw un o'r meini prawf ar gyfer gwneud y cynllun wedi'u bodloni ac, os felly, pa ddibenion newydd y dylai'r elusen eu cael.

5.2 Mater i'r ymddiriedolwr yw penderfynu ar ffurf yr ymgynghoriad, fodd bynnag pan fo'r newidiadau arfaethedig yn arwyddocaol, mae'r Comisiwn yn disgwyl i ymgynghoriad fod yn gadarn, gan gynnwys rhai (neu'r cyfan) o'r canlynol:

- diwrnodau agored ac arddangosfeydd
- cyhoeddi cynigion ar wefan briodol ac mewn cyfryngau lleol (a ddylai egluro'n glir yr hyn y maent yn eu golygu);
- cyfarfodydd cyhoeddus (sy'n agored ac yn hygyrch i'r cyhoedd);
- cyfarfodydd gyda staff a gwirfoddolwyr ac unrhyw fuddiolwyr a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion - megis trigolion elusendai, aelodau eglwysi neu ddefnyddwyr neuadd y pentref;
- cyfarfodydd (neu grwpiau ffocws) gyda defnyddwyr a grwpiau eraill â buddiant;
- cyfarfodydd (neu grwpiau ffocws) â phobl sydd ag anghenion penodol, megis pobl ag anableddau a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol;
- arolygon sy'n seiliedig ar holiadur (drwy'r post neu wyneb yn wyneb);
- Refferenda i'r plwyf lleol;
- ymarferion ymgynghori ysgrifenedig ffurfiol.

5.3 Byddai'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn awgrymu bod yr ymddiriedolaeth yn ymgynghori â thrigolion Ceinewydd ar ddau bwynt:

a) diben newydd arfaethedig yr ymddiriedolaeth h.y.: p'un a yw trigolion Ceinewydd yn cytuno â'r diben newydd arfaethedig neu, os nad ydynt, pa ddiben newydd y maent yn ei gynnig yn hytrach;

b) pa ddefnydd y gellid ei wneud o eiddo'r ymddiriedolaeth o dan y diben(ion) uchod yng ngoleuni'r tri phwynt y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried yn unol â pharagraff 4.1 yr adroddiad hwn.

5.4 Gan fod yr ymgynghoriad ar-lein ar gyfer adleoli Cofebion Rhyfel yn Nhregaron (a gynhaliwyd yn gynharach eleni) wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cael ymateb ymgysylltu da, byddai'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn awgrymu y dylid defnyddio'r un dull ar gyfer yr achos hwn. Gellid cynnal yr ymgynghoriad ar-lein ar wefan y Cyngor a gellir ei hysbysebu drwy gael Swyddfa'r Wasg i'w rannu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac unrhyw dudalennau cyfryngau cymdeithasol lleol perthnasol eraill. Gellir cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu hefyd gyda'r Aelod Lleol a sefydliadau megis Cyngor Tref Ceinewydd, y Neuadd Goffa, Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd ac unrhyw sefydliadau/grwpiau eraill y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yn briodol.

5.5 I'r aelodau hynny o'r cyhoedd nad ydynt yn defnyddio adnoddau ar-lein, gellid creu poster ar ffurf copi caled i hysbysebu'r ymgynghoriad a gallai swyddogion wneud ymholiadau gyda Llyfrgell Gymunedol Ceinewydd ynghylch a fydden nhw'n barod i roi gwybod i'w defnyddwyr am yr ymgynghoriad ac, os yw'r defnyddwyr am ymateb yn ysgrifenedig yn hytrach nag ar-lein, yna gellir rhoi copi papur iddynt i'w ddychwelyd i swyddogion y Cyngor ar ran yr ymddiriedolaeth erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynyddu ymgysylltiad ac yn sicrhau bod defnyddwyr y llyfrgell yn cymryd rhan lawn yn y broses.

5.6 Nid oes rhaid cynnal yr ymgynghoriad am hyd benodol, ond byddai'n ddoeth ymgynghori am o leiaf 6 wythnos er mwyn sicrhau bod gan bawb ddigon o amser i ymateb.

5.7 Wrth wneud cais am gynllun, bydd yn rhaid i'r ymddiriedolwr ddarparu manylion yr ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd ynghyd â gwybodaeth ynghylch sut mae hyn wedi helpu i lywio penderfyniadau'r ymddiriedolwr.

5.8 Os yw'r Comisiwn yn fodlon bod y meini prawf ar gyfer gwneud cynllun wedi'u bodloni, bydd yn ystyried drafftio cynllun. Gall y Comisiwn ofyn bod hysbysiad cyhoeddus yn cael ei wneud ynghylch ei fwriad i wneud cynllun, a bydd yn hysbysu'r ymddiriedolwr o hyn os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

5.9 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn ar fudd cyhoeddus (PB2 Budd Cyhoeddus: rhedeg elusen) rhaid i'r ymddiriedolwr fod yn ymwybodol, wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cael budd o ddiben yr elusen neu ar bwy all gael budd gan yr elusen, eu bod yn gwneud penderfyniadau:

- sy'n sicrhau bod diben yr elusen yn darparu budd;

- sy'n rheoli risgiau o niwed neu golled i fuddiolwyr yr elusen neu i'r cyhoedd yn gyffredinol wrth gyflawni diben yr elusen;

- ynghylch pwy sy'n cael budd mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â diben yr elusen; a

- sy'n sicrhau nad yw unrhyw fuddion personol yn ddim mwy na buddion damweiniol

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol o'r farn y cydymffurfir â'r uchod mewn perthynas â'r argymhellion a gynigir yn yr adroddiad hwn.

Argymhellion:	**1. Penderfynu bod achlysur cy-pres wedi codi o dan adran 62(1)(e)(i) o Ddeddf Elusennau 2011;** **2. Cynnig, yn amodol ar ymgynghoriad, mai diben newydd yr ymddiriedolaeth i'w gynnig i'r Comisiwn Elusennau yw 'datblygu addysg trigolion Ceinewydd';** **3. Penderfynu bod swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn cynnal ymarfer ymgynghori fel y nodir ym mharagraffau 5.4-5.6 o'r adroddiad hwn ynghyd ag unrhyw ychwanegiadau y cytunir arnynt yn y Pwyllgor. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu dwyn yn ôl i'w hystyried gan y Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau.**
Y rhesymau dros y penderfyniad:	**Er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau ar yr ymddiriedolwr o dan Ddeddf Elusennau 2011 a hyrwyddo dibenion yr ymddiriedolaeth**
Atodiadau:	**Atodiad 1 – Cynllun o Dir yr Ymddiriedolaeth**
Pennaeth y Gwasanaeth:	**Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu**
Swyddog Adrodd:	**Louise Harries – Cyfreithiwr**
Dyddiad:	**8 Medi 2022**

Atodiad 1 – Tir yr Ymddiriedolaeth

Land Registry
Official copy of title plan

Title number **CYM601820**
Ordnance Survey map reference **SN3859NE**
Scale **1:1250 enlarged from 1:2500**
Administrative area **Ceredigion / Ceredigion**